**Gwybodaeth am Gyfweliad**
**BSc (Anrh) Therapi Iaith a Lleferydd**

Diolch am eich cais i astudio Therapi Iaith a Lleferydd.


Fel rhan o’n proses recriwtio, rydym yn gwahodd ymgeiswyr i fynychu cyfweliad. Bydd dau gyfwelydd a bydd y cyfweliad yn para 20-25 munud. Bydd yn digwydd ar-lein gan ddefnyddio Microsoft Teams. Nid oes angen i chi gael y feddalwedd hon, er y bydd angen dyfais electronig gyda chamera arnoch, fel y gall y cyfwelwyr eich gweld. Pwrpas y cyfweliad yw rhoi’r cyfle i chi ddangos eich dealltwriaeth o’r hyn mae’n ei olygu i fod yn Therapydd Iaith a Lleferydd, ac i egluro pam rydych chi’n credu y byddech chi’n addas i’r cwrs a’r proffesiwn. Bydd y cyfwelwyr hefyd yn gwerthuso eich rhinweddau personol a’ch gwerthoedd.

**Gallwch ddod o hyd i ddyddiad eich cyfweliad ar eich Hyb UCAS, a bydd gwahoddiad Microsoft Teams hefyd yn cael ei anfon trwy e-bost sawl diwrnod cyn i'r cyfweliad gael ei gynnal. Bydd y gwahoddiad yn hysbysu amser eich cyfweliad a’r cyfwelwyr. Bydd hefyd cyswllt we i Sgyrsiau Cwrs.**

Mae’n bwysig eich bod chi’n gwneud eich hun ar gael ar y diwrnod hwn, oherwydd ni allwn gwblhau asesiad o’ch cais heb y wybodaeth y byddwn yn ei chael yn ystod y cyfweliad. Byddem yn gwerthfawrogi pe gallech gadarnhau cyn gynted â phosibl trwy eich Hwb UCAS eich bod chi’n gallu mynychu’r cyfweliad ar y diwrnod hwn.

Os byddwch chi’n cael unrhyw anawsterau, anfonwch e-bost at **newstudent_interviews@cardiffmet.ac.uk**, neu cysylltwch â Derbyniadau ar 029 2041 6010. Yn ogystal, os oes gennych unrhyw anghenion dysgu neu fynediad penodol, nodwch y rhain o flaen llaw fel y gallwn wneud y trefniadau angenrheidiol.

Rydyn ni’n edrych ymlaen at gwrdd â chi.
Yr eiddoch yn gywir



Ria Bayliss
Cyfarwyddwr Rhaglen ar gyfer BSc (Anrh) Therapi Iaith a Lleferydd
Canolfan ar gyfer Therapi Iaith a Lleferydd a’r Gwyddorau Clyw
Prifysgol Metropolitan Caerdydd